


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Penmaen Dewi

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 4.9 milltir (7.9 km) 3 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Celtic Coaster 403, *Strumble Shuttle 404
(*tymhorol, galw a theithio)

CYMERIAD: Arfordir garw, ymylon clogwyni, caeau a da byw, bryniau

CHWILIWCH AM: Siambr Gladdu Neolithig, Coetan Arthur • Carn Llidi


MWY O WYBODAETH: RHAID CADW CŴN AR DENNYN ym Mhorthmawr Uchaf,
cywion ieir buarth yn crwydro

ALLWEDD

- ● ● ● Llwybr Cylch
- — — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- - - - Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau



Penmaen Dewi

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 4.9 milltir (7.9 km)

Cludiant cyhoeddus: *Celtic

Coaster 403, *Strumble Shuttle 404
(*ymhorol, galw a theithio).

Cyfeirnod map: SM723279

Sawl rhywogaeth y gwelwch chi yn un o fannau mwyaf heulog Cymru?

Chwiliwch am: Siambr Gladdu Neolithig, Coetan Arthur, Carn Llidi.

Yn y clogwyni a'r dyfroedd o amgylch Penmaendewi mae yna amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd ar gyfer anifeiliaid, planhigion a bywyd morol. Mae'r ardal yn un o lefydd mwyaf heulog Cymru, ac mae hyn yn annog toreth o flodau gwyllt yn y Gwanwyn a'r Haf, gan gynnwys gludlys arfor, lluglys yr ychen, llysiau'r afu, llygaid llo mawr, pys ceirw a chlychau'r gog. Mae yna lond lle o bili-palaod hefyd, fel y brith perlog bach, iâr fach y graig a'r pili-pala bach glas.

Ar lethrau uwch, mae glaswelltir a gweundir arforol yn tyfu, gyda'r ddraenen ddu, gwyrdd a mieri ger y clogwyni. Dros ardaloedd sy'n cael eu pori (mae llawer o'r ochr tua'r tir yn cael ei ffermio'n ddwys) dim ond serennyn y gwanwyn, llyriad corn y carw, corbys a theim sy'n gallu tyfu'n dda yn y pridd tenau. Efallai y gwelwch chi hebog tramor ar hyd y clogwyni ac ambell fulfran wen allan tua'r môr. Chiliwch am ddolffiniaid a llamhidyddion hefyd.

O amgylch y Porth Mawr, mae gwiber, sy'n hawdd eu hadnabod oherwydd y patrwm diemwnt rhyng-gloedig amlwg ar eu cefn, yn gyffredin - maen nhw wrth eu bodd yn y glaswellt ger y

twyni tywod. Chiliwch am friallu Mair, hesg môr a thegeirianau pyramidaidd sy'n ychwanegu lliw at y twyni.

Tua'r tir yng Ngharn Llidi, rydych chi'n dal i allu gweld system cae bach Celtiaid yr Oes Haearn pan na fydd y rhedyn yn rhy uchel, ac mae olion cromlech, Coetan Arthur, yn edrych allan dros Benmaendewi ei hun tua'r gorllewin.

Mae Ian Meopham, Parmon Sector y Gorllewin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cerdded y daith hon. Mae'n dweud: "Taith gerdded wych os am weld y frân goesgoch, mulfrain gwyn a llamhidyddion. Chiliwch am siambr gladdu Neolithig hynafol Coetan Arthur a bryn Carn Llidi, sy'n edrych allan dros Benmaendewi. Mae yna olygfeydd gwych allan at yr Esgobion a'r Clercod o'r pentir. Yn y Gwanwyn, mae yna wledd o serennyn y gwanwyn, ac yn yr Hydref mae'r gweundir yn blodeuo, chwiliwch am degeirian frith y waun."

Cymeriad: Arfordir garw, ymylon clogwyni, caeau a da byw, brynau.

Mwy o wybodaeth: RHAID CADW CŴN AR DENNYN ym Mhorthmawr Uchaf, cywion ieir buarth yn crwydro.

